# Sgiliau Hanfodol Cymru

## TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

**Nodiadau pwysig:**

1. Mae pob lefel o'r sgil yn ymgorffori'r lefelau blaenorol ac yn adeiladu arnyn nhw.
2. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau 'Ymhelaethu ar ofynion y dystiolaeth' a 'Diffiniadau Gorfodol TGCh' sy'n rhoi manylion mandadol am bob cydran ac sy'n rhan hanfodol o'r safonau.
3. Ble mae'r safonau yn cyfeirio at 'gwybodaeth', gall hyn olygu testun a/neu ddelwedd a/neu rifau.

## Lefel 4

Mae hyn yn golygu arddangos eich sgiliau wrth:

- ddatblygu strategaeth ar gyfer defnyddio sgiliau TGCh
- monitro eich cynnydd ac addasu eich strategaeth fel y bo angen
- cyflwyno canlyniadau eich gwaith
- gwerthuso eich strategaeth gyffredinol.

**D.S**. Mae'n rhaid i chi roi o leiaf un enghraifft yn dangos eich bod yn cwrdd â gofynion safonau **TGCh4.1, TGCh4.2** a **TGCh4**.**3** yng nghyd-destun un gweithgaredd.

### TGCh4.1 Datblygu strategaeth

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**TGCh4.1.1**
Datblygu strategaeth ar gyfer defnyddio sgiliau TGCh dros gyfnod estynedig.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- sefydlu cyfleoedd ar gyfer defnyddio sgiliau TGCh
- nodi'n eglur y canlyniadau rydych yn gobeithio eu sicrhau
- cynllunio'ch defnydd o sgiliau TGCh dros gyfnod estynedig gan roi ystyriaeth i'r ffactorau a allai effeithio ar eich cynlluniau
- dewis, ar sail ymresymu, y dulliau sy'n sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen
- canfod ffynonellau perthnasol o wybodaeth, gan gynnwys pobl a deunydd cyfeiriol, ac ymchwilio i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

### TGCh4.2 Monitro cynnydd

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**TGCh4.2.1**
Monitro eich cynnydd ac addasu eich strategaeth, fel y bo angen, er mwyn sicrhau canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen mewn gwaith sy'n cynnwys defnyddio TGCh ar gyfer **dau** bwrpas cymhleth, gwahanol.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- baratoi a defnyddio TGCh er mwyn cynorthwyo â:
  - o chwilio am, gwerthuso a dewis gwybodaeth yn effeithlon
  - o archwilio gwahanol lwybrau ymholi
- datblygu a chyfnewid gwybodaeth berthnasol at eich pwrpas
- olrhain gwybodaeth newydd, gan gynnwys integreiddio testun, delwedd a rhif
- monitro eich defnydd o sgiliau TGCh ac adfyfyrio'n feirniadol arnyn nhw, gan gynnwys:
  - o cael adborth gan eraill
  - o nodi 'r dewisiadau a wnaed a barnu pa mor effeithiol oedden nhw
- addasu eich strategaeth fel y bo angen er mwyn goresgyn anawsterau a chynhyrchu canlyniadau o'r ansawdd sydd ei angen.

.

## TGCh4.3 Cyflwyno canlyniadau a gwerthuso strategaeth

**Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth eich bod chi'n medru:**

**TGCh4.3.1**
Cyflwyno canlyniadau eich gwaith.

**TGCh4.3.2**
Gwerthuso effeithiolrwydd eich strategaeth a nodi ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau TGCh ymhellach.

**Er mwyn dangos eich bod chi'n gymwys, mae angen i chi wybod sut i:**

- ddatblygu strwythur ar gyfer cyflwyno'ch gwaith, gan integreiddio gwahanol fathau o wybodaeth er mwyn sicrhau cysondeb yn y modd mae testun, rhifau a delweddau yn ymddangos
- defnyddio barn pobl eraill wrth fireinio'r cynnwys a'r diwyg
- cyflwyno gwybodaeth mewn dull effeithiol, gan ddefnyddio fformat ac arddull sy'n addas i'ch pwrpas, pwnc a chynulleidfa, a sicrhau:
  - o ei bod yn gywir o ran cynnwys a chonfensiynau
  - o ei bod yn gwneud synnwyr
- gwerthuso effeithiolrwydd eich strategaeth, gan nodi'r ffactorau oedd wedi dylanwadu ar y canlyniadau
- nodi ffyrdd o ddatblygu eich sgiliau TGCh ymhellach.

**Datganiad mynediad**
Efallai na fydd ymgeiswyr ag anableddau penodol yn gallu dangos eu bod yn gymwys drwy gyflwyno yr holl dystiolaeth yn y dull a nodir yn y safonau hyn.

Ar gyfer yr ymgeiswyr hyn gellir gwneud addasiadau rhesymol i ofynion y dystiolaeth lle bo hynny'n briodol. Mewn rhai achosion, mae'n bosib y gellir caniatáu eithrio. Ceir manylion pellach am addasiadau rhesymol ac eithrio ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau penodol mewn dogfen ar wahân ar ymhelaethu.